# TAG ADDYSG GORFFOROL

# CANLLAWIAU I UNEDAU PE2

## *Teitl y Cynnwys: Prosesau Dysgu*

**Pwyntiau allweddol**

- Dysgu arsylwadol
- Cyfnodau dysgu
- Trosglwyddo dysgu

**DYSGU ARSYLWADOL AC ARDDANGOS** – Mae damcaniaethwyr dysgu cymdeithasol yn credu ein bod yn dysgu drwy arsylwi pobl eraill. Y term am hyn yw dysgu arsylwadol. Defnyddir y term ‘model’ am y person sy’n cael ei arsylwi ac enw’r broses ydy **modelu**. Mae athrawon a hyfforddwyr sy’n defnyddio’r ddamcaniaeth hon yn defnyddio arddangos fel y prif arf dysgu. Cymhwyso modelu yw arddangos. Un o broblemau dysgu arsylwadol yw na all hyfforddwyr a dysgwyr bob amser reoli’r hyn sy’n cael ei arsylwi – mae bechgyn yn aml yn dysgu arferion gwael drwy fodelu eu hymddygiad ar fabolgampwyr proffesiynol e.e. cwestiynu penderfyniadau dyfarnwyr am eu bod yn gweld hyn ar y teledu. Mae Bandura (1977) yn awgrymu bod pedair proses mewn dysgu arsylwadol:

| | |
|---|---|
| PROSESAU RHOI SYLW | Er mwyn gallu efelychu arddangosiad, rhaid i’r dysgwr roi sylw i’r arddangosiad gan ddefnyddio sylw detholus i adnabod yr arwyddion perthnasol. Dylai athro/hyfforddwr amlygu’r arwyddion perthnasol. |
| PROSESAU CADW MEWN COF | Rhaid i’r arsylwr gofio perfformiad y model. Felly mae angen iddo greu darlun meddyliol. Gellir gwella cadw mewn cof felly drwy arddangosiadau niferus ac ymarfer meddyliol. |
| ATGYNHYRCHU MOTOR | Mae hyn yn cyfeirio at y cynnig gan y dysgwr ar y sgìl a fodelwyd h.y. copïo’r perfformiad. Dylai arddangosiadau cael eu cysylltu â galluoedd y dysgwr. Gellir gwella perfformiad y dysgwr drwy ymarfer a thrwy ddefnyddio adborth cynhenid ac allanol. |
| PROSESAU CYMHELLIANT | Mae dysgwyr yn tueddu i efelychu’r hyn sydd o ddiddordeb iddynt, felly mae hyn yn ymwneud â pham y byddai dysgwr yn copïo perfformiad y model. Gall statws y model effeithio ar gymhelliant (dyma pam yr efelychir ymddygiad pêl-droedwyr enwog gymaint!). Bydd atgyfnerthu allanol o’r model yn cynyddu’r cymhelliant i’w efelychu. |

**CYFNODAU DYSGU** – Mae Fitts a Posner (1967) yn disgrifio 3 chyfnod dysgu:

- **GWYBYDDOL** – cyfnod y dysgu cynnar. Yn y cyfnod hwn mae arddangosiadau'n bwysig, ynghyd ag esboniadau geiriol clir. Mae'r arddangosiadau gweledol yn rhoi darlun meddyliol o'r symudiad i'r dysgwr. Gellir defnyddio arwyddion geiriol i sicrhau dilyniant cywir y symudiad. Yn y cyfnod hwn mae gallu'r dysgwr i roi sylw yn gyfyngedig, felly dylai cyfarwyddiadau fod yn fyr a phwrpasol. Gallai cyfarwyddyd llaw gael ei ddefnyddio hefyd yn y cyfnod hwn i arwain y dysgwr trwy'r symudiad. Nodweddir y cyfnod hwn gan lawer o gamgymeriadau. Mae angen adborth allanol, yn enwedig atgyfnerthu cadarnhaol o ymatebion cywir, i helpu'r dysgwr i symud ymlaen i'r cyfnod cysylltiadol.

- **CYSYLLTIADOL** – Yn y cyfnod hwn mae gan y dysgwr ddarlun meddyliol o'r hyn sydd ei angen ond mae'n dal i wneud camgymeriadau. Mae patrymau symud yn rhwyddach ac mae'r dysgwr nawr yn dechrau mireinio sgiliau sydd wedi'u dysgu'n dda. Mae'r dysgwr yn dechrau gwybod 'teimlad' y symudiad ac felly gall ddechrau defnyddio adborth cinesthetig. Fodd bynnag, mae angen o hyd i'r dysgwr gael adborth allanol gan yr athro/hyfforddwr, yn enwedig yn amlygu techneg ac amseru cywir. Mae angen i ddiffygion gael eu cywiro yn y cyfnod hwn i atal y dysgwr rhag datblygu arferion gwael.

- **YMREOLAETHOL** – Erbyn hyn mae patrymau symud wedi'u dysgu'n dda ac yn cael eu perfformio'n ddeheuig ac maen nhw wedi dod yn awtomatig. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i'r perfformiwr ganolbwyntio ar berfformiad ac felly bydd ganddo allu sbâr i roi sylw fydd yn ei alluogi i ganolbwyntio ar bethau eraill. Bydd y dysgwr yn gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth ginesthetig ond bydd hefyd yn dal i gael budd o adborth technegol mwy cymhleth gan ei athro/hyfforddwr.

**TROSGLWYDDO DYSGU** – Mae hyn yn cyfeirio at yr effaith mae dysgu un dasg yn ei chael ar ddysgu tasg arall. Mae'n bwysig nodi nad yw pob trosglwyddo yn gwella dysgu. Mae trosglwyddo'n gysyniad cymhleth a gall fod ar sawl ffurf:

  - **TROSGLWYDDO CADARNHAOL** – mae hyn yn digwydd pan fydd dysgu blaenorol yn hybu dysgu presennol e.e. gallai fod trosglwyddo cadarnhaol o daflu pêl i weithredu'r cliriad uwchben mewn badminton.
  - **TROSGLWYDDO NEGYDDOL** – mae hyn yn digwydd pan fydd dysgu blaenorol yn cael effaith ataliol ar ddysgu tasg newydd e.e. gallai fod trosglwyddo negyddol i chwaraewr pêl-fasged profiadol sy'n dechrau chwarae pêl-rwyd gan y gallai pwysau gwahanol y bêl achosi i'r chwaraewr saethu'n rhy bell/daflu'n rhy bell.
  - **SERO-DROSGLWYDDO** – yn yr achos hwn nid yw dysgu blaenorol yn cael dim effaith ar ddysgu presennol e.e. ni fyddai sgiliau a ddysgwyd mewn pêl-droed yn cael dim effaith wrth ddysgu nofio.
  - **TROSGLWYDDO DWYOCHROL** – trosglwyddo rhwng aelodau yw hyn.
  - **TROSGLWYDDO RHAGWEITHREDOL** – yr effaith mae dysgu sgìl yn ei chael ar sgìl sydd heb gael ei dysgu eto – gallai hyn fod yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n sero.
  - **TROSGLWYDDO ÔL-WEITHREDOL** – yr effaith mae dysgu sgìl yn ei chael ar sgìl a ddysgwyd o'r blaen, eto gallai'r effaith fod yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n sero.

### Awgrymiadau:

Mae cysylltiad agos iawn rhwng cyfnodau dysgu a phrosesu gwybodaeth – daw prosesu'n llawer mwy effeithlon wrth i chi symud drwy'r cyfnodau dysgu.



## *Cwestiynau ar arddull cwestiwn arholiad*

1. Gan ddefnyddio enghreifftiau, eglurwch sut mae trosglwyddo dysgu *(transfer of learning)* wedi effeithio ar eich perfformiad ym myd chwaraeon.

[3]

Atebion